# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mawrth 2021

Amser: 12.50

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@senedd.cymru

---

**Rhag-gyfarfod (12.50 - 13.00)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**2 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**

(13.00 - 14.15) (Tudalennau 1 - 15)

Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

Reg Mitchell-Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng Covid-19, Llywodraeth Cymru

**Egwyl (14.15 - 14.30)**

**3 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**

(14.30 - 15.15) (Tudalennau 16 - 65)

Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 66 - 67)

**4.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r cyfarfod gweinidogol ynghylch Sectorau Gwaith Tai a Chynllunio Gofodol ar y Cyd, y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC)**

(Tudalen 68)

**4.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r cyfarfod gweinidogol ynghylch Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

(Tudalennau 69 - 70)

**4.3 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

(Tudalennau 71 - 79)

**4.4 Cyflwyniad ysgrifenedig gan CICAIR i'r ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru (Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad)**

(Tudalennau 80 - 83)

**4.5 Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22**

(Tudalennau 84 - 96)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 18 Mawrth 2021

## 6 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.15 - 15.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**11 Mawrth 2021 – tudalen flaen papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-06-21 Papur 1 | Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol | Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â'r cyfarfod gweinidogol ynghylch Sectorau Gwaith Tai a Chynllunio Gofodol ar y Cyd, y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) | I'w nodi |
| ELGC(5)-06-21 Papur 2 | Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol | Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â'r cyfarfod gweinidogol ynghylch Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig | I'w nodi |
| ELGC(5)-06-21 Papur 3 | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | I'w nodi |
| ELGC(5)-06-21 Papur 4 | Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn | Cyflwyniad ysgrifenedig gan CICAIR i'r ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru (Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad) | I'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-06-21 Papur 5 | | Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 | I'w nodi |

# Eitem 4.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC-JJ-00371-21

John Griffiths AS - Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru

SeneddCymunedau@senedd.cymru

24 Chwefror 2021

Annwyl John,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar y Cyd rhwng Tai a Chynllunio Gofodol yn cael ei gynnal yfory ddydd Iau 25 Chwefror. Mae'r Gweinyddiaethau Aelodedig wedi cytuno i gynnal cyfarfod rhithwir a gynhelir gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am dai a chynllunio, byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i Aelod-weinyddwyr y BIC drafod goblygiadau demograffeg newidiol y gweinyddiaethau a'r effaith bosibl y bydd hyn yn ei chael ar y sectorau cynllunio gofodol a thai.  Bydd hefyd yn galluogi trafodaeth ar sut y gallwn weithio i ddatrys y materion hyn ar y cyd.

Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i Weinidogion fyfyrio ar waith ar y cyd rhwng y sectorau gwaith Tai a Chynllunio Gofodol, tra hefyd yn cytuno ar Waith Blaengynllunio ar gyfer y ddau sector gwaith.

Bydd y cyngor yn cytuno ar hysbysiad yn y cyfarfod a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei gyhoeddi a chanlyniad y cyfarfod, maes o law.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Mike Hedges AS.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Eitem 4.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC/JJ/00529/21

John Griffiths AS - Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru

SeneddCymunedau@senedd.cymru

03 Mawrth 2021

Annwyl John,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol yn cael ei gynnal yr wythnos hon, sef dydd Gwener 5 Mawrth. Mae'r Aelod-weinyddiaethau wedi cytuno i gynnal cyfarfod rhithiol, dan arweiniad Ynys Manaw. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol, fi fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i Aelod-weinyddiaethau'r BIC drafod cynhwysiant digidol, sy'n gwestiwn allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, a'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ar draws y gweinyddiaethau i sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â'r newidiadau technolegol sy'n digwydd mor gyflym yn ein cymdeithas, a manteisio arnynt. Yn ogystal, bydd yn gyfle i drafod effaith y pandemig ar agenda cynhwysiant digidol a'r rôl hollbwysig y mae'n rhaid inni i gyd ei chwarae er mwyn helpu dinasyddion i feithrin hyder digidol drwy gyfuniad o gymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a mynediad.

Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i Weinidogion ystyried gwaith ehangach sy'n digwydd ar draws y sectorau mewn perthynas â diogelwch ar-lein, gan ddod i gytundeb ar yr un pryd ar y Cynllun Gwaith i'r dyfodol.

Bydd y cyngor yn cytuno ar hysbysiad yn y cyfarfod, a byddaf yn rhoi'r manylion cyhoeddi a chanlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Lynne Neagle AS; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Bethan Sayed AS; a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Russell George AS.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau]
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Chwefror 2021

Annwyl John

**RHOI DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 AR WAITH**

Gan fod y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ("Deddf 2021") wedi cael Cydsyniad Brenhinol bellach, roeddwn yn awyddus i achub ar y cyfle i roi trosolwg i'r Pwyllgor o'r camau rwy'n bwriadu eu cymryd er mwyn helpu i roi Deddf 2021 ar waith.

Er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol o ran pa newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu rhoi ar waith pryd, ac er mwyn sicrhau y gall pawb wneud y paratoadau gofynnol, bydd angen gwneud nifer o offerynnau statudol cyn diwedd tymor y Senedd hon.

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021 ("y Gorchymyn Cychwyn cyntaf")**

Bydd y Gorchymyn Cychwyn cyntaf, yr wyf yn bwriadu ei wneud ddechrau mis Mawrth, yn cychwyn amrywiaeth eang o ddarpariaethau ar gyfres o ddyddiadau rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mai 2022.

Daw'r holl bwerau gwneud Rheoliadau yn Rhannau 2, 3 a 4 o Ddeddf 2021 nad ydynt mewn grym eto i rym ar y diwrnod ar ôl gwneud y Gorchymyn er mwyn hwyluso'r broses o ddrafftio'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, ymgynghori arni a'i gwneud.

Daw adran 163 o Ddeddf 2021, sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") er mwyn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi prif weithredwr gan y Comisiwn Ffiniau, ac adran 164 o'r Ddeddf, sy'n diwygio Deddf 2013 mewn perthynas â chyfarwyddiadau a wneir o dan adran 48 o'r Ddeddf honno, i rym ar 1 Ebrill 2021.

Pŵer cymhwysedd cyffredinol

Daw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i rym ar gyfer prif gynghorau ar 1 Tachwedd 2021. Fel y rhoddais wybod i'r Pwyllgor yn ystod Cam 1, drafftiwyd Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol cymwys baratoi a chymeradwyo achos busnes cyn arfer y pŵer cyffredinol i wneud rhywbeth at ddiben masnachol.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi fersiwn drafft o ***Reoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021*** er mwyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol arnynt yn ystod mis Mawrth.

Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, rwy'n rhagweld y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud yn ystod mis Hydref, ar yr amod y bydd y Rheoliadau drafft wedi cael eu gosod ger bron y Senedd ac wedi'u cymeradwyo. Rwy'n bwriadu ehangu'r Rheoliadau hyn i gynghorau cymuned cyn cychwyn y pŵer cyffredinol ar gyfer y cynghorau hyn.

Daw'r pŵer cyffredinol i rym ar gyfer cynghorau cymuned ar 5 Mai 2022. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni baratoi'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol gofynnol i gefnogi'r broses o roi'r darpariaethau ar waith.

Y ddyletswydd ar gynghorau cymuned i baratoi adroddiad blynyddol

Daw adran 52 o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Ebrill 2022. Mae'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned baratoi a chyhoeddi adroddiad am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor. Bydd yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi eu hadroddiad cyntaf, a fydd yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2021-22, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol honno.

Rhan 3 a 4 o Ddeddf 2021

O ystyried yr amserlen graffu ddiwygiedig ar gyfer Deddf 2021, rwyf wedi gohirio cychwyn nifer o'r darpariaethau yn y Ddeddf i 5 Mai 2022 er mwyn cyd-fynd â dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf.

Yn fy marn i, mae'r dull hwn yn fwy priodol a bydd yn tarfu llai ar awdurdodau lleol, yn enwedig o ystyried y pandemig parhaus, yn hytrach na chyflwyno nifer o ofynion newydd ar y sector yn ystod y flwyddyn cyn etholiad cyffredin. Ceir rhestr lawn o'r darpariaethau a ddaw i rym ar y dyddiad hwn yn Atodiad A.

*Canllawiau*
Er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a'r cymorth angenrheidiol ar gael i awdurdodau lleol wrth iddynt roi'r darpariaethau hyn ar waith, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion baratoi canllawiau fel sail i'r darpariaethau sy'n nodi'n glir y diwylliant a'r dull gweithredu a ddisgwylir wrth roi'r ddeddfwriaeth ar waith.

Yn ogystal â datblygu canllawiau newydd, caiff canllawiau sy'n bodoli eisoes eu hailystyried a'u diweddaru. Yn hytrach na chreu nifer o ganllawiau ar wahân y mae'n rhaid eu darllen gyda'i gilydd, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddatblygu cyfres gyfunol o ganllawiau, y cyfeirir ati ar hyn o bryd fel 'y Llawlyfr Democratiaeth', sy'n seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion cydraddoldeb, tryloywder, atebolrwydd, parch a phartneriaeth rhwng etholwyr a'r rheini sydd wedi'u hethol.

*Democratiaeth Ddigidol*
Ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu canllawiau, mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried y ffordd orau o fanteisio ar botensial technoleg ddigidol fel rhan o fywydau beunyddiol dinasyddion yng Nghymru.

Rwyf wedi comisiynu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i gynnal prosiect Darganfod er mwyn ystyried nodweddion dyfodol democratiaeth ddigidol yn 2022 a thu hwnt i gynghorau ac i ddinasyddion, a hynny yn sgil pob agwedd ar Ddeddf 2021, ac i nodi'r sefyllfa sydd ohoni a sut y gallwn ddatblygu o'r sefyllfa honno i allu cyflawni gofynion Deddf 2021 yn llawn erbyn 2022.

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021 ("yr ail Orchymyn Cychwyn")**

Mae'r ail Orchymyn Cychwyn yn darparu ar gyfer dod â Rhan 6 o Ddeddf 2021 i rym, sy'n darparu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer cyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd i brif gynghorau ac yn rhoi pwerau cefnogi ac ymyrryd newydd i Weinidogion Cymru; darpariaethau ailstrwythuro o fewn Rhan 7 o Ddeddf 2021; y darpariaethau rhannu gwybodaeth yn adran 159 a datgymhwyso Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009") i brif gynghorau ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae'r ail Orchymyn Cychwyn hefyd yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud â datgymhwyso Mesur 2009 i brif gynghorau ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod arfer rhai swyddogaethau penodol a phethau eraill a wneir o dan Fesur 2009 yn parhau i gael effaith ar ôl cychwyn darpariaethau Deddf 2021 sy'n datgymhwyso Mesur 2009 i'r awdurdodau hyn.

Yn ogystal, o ganlyniad i gychwyn y gyfundrefn perfformiad newydd yn Rhan 6, a datgymhwyso Mesur 2009 yn dilyn hynny, mae angen nifer o ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfiadau eraill.

Ar 9 Chwefror, cyflwynais fersiwn ddrafft o ***Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021*** er mwyn darparu ar gyfer y diwygiadau hyn. Ar yr amod y caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, byddaf yn gwneud y Rheoliadau hyn a'r ail Orchymyn Cychwyn yn fuan wedi hynny.

Rwy'n bwriadu dod â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y gyfundrefn perfformiad newydd yn gymwys i brif gynghorau o flwyddyn ariannol 2021-2022 ac mewn perthynas â'r flwyddyn honno. Bydd y dull hwn yn rhoi'r flwyddyn ariannol gyfan i brif gynghorau gynnal eu hunanasesiad cyntaf, gan gyflwyno adroddiad yn gynnar yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23. Bydd cynghorau yn parhau i asesu eu perfformiad yn unol â Mesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan gyhoeddi adroddiadau erbyn diwedd mis Hydref 2021.

Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud ag Asesiadau Perfformiad Paneli yn cychwyn yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022. Bydd hyn yn golygu y gellir cyflwyno'r gyfundrefn newydd mewn ffordd fwy graddol a phwyllog, ac y gellir cynnal o leiaf un cylch o hunanasesiadau cyn ei gwneud hi'n ofynnol cwblhau asesiad panel.

*Canllawiau*
Rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau yn ystod mis Mawrth i gefnogi'r broses o roi'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd ar waith i brif gynghorau. Mae fy swyddogion wedi bod yn cydweithio â llywodraeth leol ers 24 mis, drwy grŵp ffocws bach o swyddogion llywodraeth leol sy'n chwarae rhan yn nhrefniadau perfformiad a llywodraethu eu hawdurdodau, i gyd-gynhyrchu'r canllawiau hyn.

Daeth yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft i ben yn gynharach yn ystod y mis, a chaiff yr ymatebion eu hystyried yn ofalus wrth lunio fersiwn derfynol y canllawiau.

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Arbed) 2021 ("y trydydd Gorchymyn Cychwyn")**

Bydd y trydydd Gorchymyn Cychwyn yn dod ag adran 47 o Ddeddf 2021 i rym, sy'n darparu ar gyfer mynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol, gan gynnwys mynychu o bell, ac Atodlen 4 i Ddeddf 2021 (fel y'i cyflwynwyd gan adran 49) i'r graddau nad yw'r darpariaethau hyn eisoes mewn grym.

Mae Rhan 1 o Atodlen 4 yn diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") ac Atodlen 12 iddi a Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 yn bennaf, er mwyn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau awdurdodau lleol, gan gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol cyhoeddi rhai dogfennau cyfarfod penodol ar ffurf electronig. Mae Rhan 2 o Atodlen 4 yn gwneud rhai diwygiadau canlyniadol penodol o ganlyniad i adran 47.

Cafodd y darpariaethau hyn eu mewnosod yn ystod Cam 3 at ddiben gwneud trefniadau parhaol mewn perthynas â rhai darpariaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Rhoddodd Rheoliadau 2020 hyblygrwydd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i weithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, ond gan barhau i fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd, er enghraifft, drwy alluogi cyfarfodydd i gael eu cynnal ar sail mynychu'n llawn neu'n rhannol o bell a thrwy wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi rhai dogfennau penodol ar ffurf electronig.

Dim ond mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir cyn 1 Mai 2021 y mae Rheoliadau 2020 yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, gan mai dim ond mewn perthynas â chyfarfodydd hyd at 7 Mai 2021 y mae adran 78 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar eu cyfer.

Gan mai dim ond i gyfarfodydd a gynhelir cyn 1 Mai 2021 y mae Rheoliadau 2020 yn gymwys, rwy'n bwriadu dod ag adrannau 47 a 49 o Ddeddf 2021 ac Atodlen 4 iddi i rym ar 1 Mai (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym).

Fel y nodwyd gennyf mewn llythyrau blaenorol, mae'r pandemig wedi tynnu sylw at y ffaith bod darpariaethau cyfredol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol wedi dyddio, yn enwedig y darpariaethau gweithdrefnol a thechnegol sy'n llywodraethu'r ffordd y caiff cyfarfodydd eu cofnodi, sut y caiff gwysion eu hanfon at aelodau, a sut y caiff dogfennau gan gynnwys hysbysiadau, agendâu a chofnodion eu cyhoeddi.

Os na ddaw darpariaethau uchod Deddf 2021 i rym ar 1 Mai, bydd awdurdodau yn dychwelyd at ddarpariaethau Deddf 1972 (a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig) fel yr oeddent cyn iddynt gael eu haddasu gan Reoliadau 2020, a fyddai'n gam sylweddol yn ôl. Byddai hyn yn arbennig o heriol pe byddai angen i awdurdodau lleol barhau i weithredu mewn ffordd sy'n ddiogel o ran COVID-19 ar yr adeg honno, gan na fyddent yn gallu cyfarfod yn gyfreithiol ac yn ddiogel heb fod y darpariaethau diwygiedig mewn grym.

Mae dod â'r darpariaethau hyn i rym ar y dyddiad hwn yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Senedd i ***Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021*** ("y Rheoliadau Canlyniadol").

Mae'r Rheoliadau Canlyniadol, yr wyf wedi cyflwyno fersiwn ddrafft ohonynt ger bron y Senedd, yn gwneud diwygiadau i ddeddfiadau eraill sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1972 gan Atodlen 4 i Ddeddf 2021, gan weithredu darpariaethau yn adran 47 mewn perthynas â chynnwys hysbysiadau (neu wysion yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol) ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd o bell, ac yn gwneud darpariaeth drosiannol er mwyn sicrhau y gellir symud yn ddidrafferth o Reoliadau 2020 i ddarpariaethau Deddf 2021.

Mae'r Rheoliadau Canlyniadol hefyd yn darparu bod yn rhaid i ddogfennau a gaiff eu cyhoeddi ar ffurf electronig, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2020, fod yn hygyrch am chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod y maent yn cyfeirio ato. Ar hyn o bryd, nid yw Rheoliadau 2020 yn dynodi am ba hyd y mae angen i ddogfennau a gaiff eu cyhoeddi ar ffurf electronig o dan y Rheoliadau hynny barhau'n hygyrch, sy'n golygu mewn gwirionedd ei bod yn ofynnol iddynt fod yn hygyrch am gyfnod amhenodol.

<u>Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001</u>

Nid yw Rhan 5A o Ddeddf 1972 nac Atodlen 12 iddi yn gymwys i weithrediaethau prif gynghorau, a gwneir darpariaeth yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"), er bod yr un egwyddorion yn gymwys ar draws cyrff deddfwriaeth.

Nid oedd digon o amser i gyflwyno diwygiadau'r Llywodraeth yn ystod Cam 3 er mwyn diwygio Rheoliadau 2001 i gysoni'r trefniadau ar gyfer gweithrediaethau prif gynghorau â'r darpariaethau diwygiedig yn Rhan 5A o Ddeddf 1972 mewn perthynas â phrif gynghorau a chyrff eraill llywodraeth leol.

Mae angen darpariaeth bellach i ddiwygio Rheoliadau 2001 ac rwy'n bwriadu gwneud ***Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2021*** yn ystod mis Mawrth.

Os na wneir y diwygiadau i Reoliadau 2001 i ddod i rym ar yr un pryd ag y daw Atodlen 4 i rym, bydd gweithrediaethau prif gynghorau yn dychwelyd at ddarpariaethau Rheoliadau 2001 ar 1 Mai 2021, a thrwy hynny wynebu'r un heriau a nodwyd gennyf uchod mewn perthynas â'r prif gynghorau.

Yn ogystal, gan ei bod yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau ar gyfer mynychu o bell o dan adran 47 mewn perthynas â'u gweithrediaeth, mae angen diwygio Rheoliadau 2001 er mwyn sicrhau eu bod yn ategu'r darpariaethau yn adran 47, yn yr un ffordd ag y mae Atodlen 4 yn diwygio Deddf 1972 mewn perthynas â chyfarfodydd y prif gyngor.

Yn olaf, pe na châi Rheoliadau 2001 eu diwygio fel y cynigir, byddai cyfarfodydd y weithrediaeth yn destun gofynion sy'n wahanol i'r gofynion ar gyfer cyfarfodydd y prif gyngor, a fyddai'n arwain at ddryswch ac anghysondeb.

Wrth ddatblygu'r Rheoliadau Diwygiadau Canlyniadol a'r diwygiadau i Reoliadau 2001, rwyf wedi ystyried dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

*Canllawiau*
Rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi'r darpariaethau hyn ar waith. Er y caiff y canllawiau hyn eu cyhoeddi cyn canllawiau Democratiaeth 2022 y cyfeiriais atynt yn gynharach yn y llythyr hwn, cânt eu drafftio ar sail yr un gwerthoedd ac egwyddorion sylfaenol, sef cydraddoldeb, tryloywder, atebolrwydd a pharch.

Bydd y canllawiau hyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried materion fel cydraddoldeb, yn benodol, cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r disgwyliad y bydd awdurdodau yn gwneud addasiadau rhesymol wrth benderfynu pa drefniadau sy'n briodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Er enghraifft, byddwn yn disgwyl i hyn gynnwys ystyried materion fel darparu cyfleusterau isdeitlo ac ati.

**Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

Rwyf hefyd wedi cyflwyno'r offerynnau statudol drafft sydd eu hangen er mwyn galluogi'r cyd-bwyllgorau corfforedig cyntaf i gael eu sefydlu ym mis Ebrill 2021. Dyma haen gyntaf yr offerynnau statudol mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae'r haen hon yn cynnwys pedair cyfres o Reoliadau sefydlu, un i bob rhanbarth, sef:

- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru 2021***
- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021***
- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru 2021***
- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru 2021***

Yn ogystal â darparu ar gyfer sefydlu pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys y trefniadau cyfansoddiadol craidd a'r manylion allweddol, fel aelodaeth, daearyddiaeth a'r swyddogaethau a gaiff eu harfer gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig: cynllunio datblygiad strategol; cynllunio trafnidiaeth ranbarthol; a'r pŵer i wneud pethau i hybu neu wella llesiant economaidd eu hardaloedd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sefydlu drafft a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a sesiynau briffio technegol cyn y cyfnod ymgynghori ac yn ystod y cyfnod hwnnw. Cafwyd 52 o ymatebion i'r broses ymgynghori ac ni chafwyd unrhyw geisiadau am newidiadau sylfaenol i'r Rheoliadau.

Er bod y Rheoliadau sefydlu drafft yn darparu ar gyfer yr addasiadau angenrheidiol i Ddeddf Trafnidiaeth 2000, er mwyn galluogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i arfer eu swyddogaethau trafnidiaeth arfaethedig, yn unol â'r egwyddor o wneud darpariaeth unwaith, darperir ar gyfer yr addasiadau hyn bellach yn ***Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021***

Mae'r Rheoliadau yn darparu y daw'r swyddogaethau i'w harfer i rym ar 28 Chwefror 2022 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru neu 30 Mehefin 2022 ar gyfer y tri Chyd-bwyllgor Corfforedig arall. Mae'r cyfnod oedi hwn er mwyn rhoi cyfle i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgymryd â gwaith paratoadol cyn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

Cyflwynwyd nifer o Offerynnau Statudol hefyd ochr yn ochr â'r Rheoliadau Sefydlu er mwyn sicrhau, o'r adeg y cânt eu sefydlu, y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig:

- yn dod o dan gylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (***Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 3) 2021***)
- yn dod o fewn cylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru (***Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021***)
- yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth Cyhoeddus (***Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) (Cymru) 2021***)

- yn gallu bod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg (***Rheoliadau Mesur Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021***)

Bydd hyn yn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ofynion goruchwylio, rheoli ac ymddygiad priodol o'r cychwyn a'u bod yn cyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed gennyf wrth basio Deddf 2021 mewn perthynas â materion fel Safonau'r Gymraeg.

O fewn yr haen gyntaf, mae ***Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021*** yn rhoi nifer o ddarpariaethau craidd ar waith mewn perthynas â threfniadau gweinyddu a llywodraethu cyffredinol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys darpariaeth i wneud y canlynol:

- cyn cymhwyso'r fframwaith moesegol i lywodraeth leol yn ehangach, sicrhau bod aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig o gynghorau cyfansoddol a chyflogeion Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i safonau ymddygiad priodol
- sicrhau bod arferion cyfrifyddu a rheoli ariannol priodol ar waith mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig
- galluogi trefniadau i gael eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phrif gynghorau
- sicrhau y caiff aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig eu trin yn gyfartal gan y Cyd-bwyllgor hwnnw

Unwaith y bydd Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021 wedi'i wneud a bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddarpariaethau perthnasol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rwy'n bwriadu gwneud darpariaeth i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau cyfrifyddu a rheoli ariannol priodol.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd ***Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2021***, sy'n ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd, yn cael eu cymhwyso at Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rwy'n bwriadu gwneud y Rheoliadau hyn y diwrnod ar ôl i Orchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021 gael ei wneud, ond dylid nodi y daw i rym yn ystod cyfnod y toriad.

Bwriedir gwneud is-ddeddfwriaeth bellach yn ystod y tymor nesaf er mwyn cwblhau'r broses o gymhwyso'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraeth leol y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu o'i fewn – er enghraifft, dim ond ar ôl eu sefydlu y gellir eu gwneud yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddaf yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i gyd-ddatblygu trefniadau priodol a chymesur ar gyfer rhoi'r fframwaith hwnnw ar waith.

**Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021**

Yn olaf, rwyf hefyd wedi cyflwyno Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021 sy'n diwygio Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gynyddu hawl absenoldeb mabwysiadu i aelodau awdurdod lleol o 2 wythnos i 26 wythnos. Bydd y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn golygu y bydd yr un cyfnodau absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadu ar gael i aelodau prif gynghorau ac yn darparu ar gyfer trefniadau tebyg mewn perthynas ag absenoldeb mabwysiadu i'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer absenoldeb mamolaeth.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r offerynnau statudol hyn.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

**Atodiad A: Darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n dod i rym ar 5 Mai 2022.**

Bydd yr awdurdodau lleol perthnasol yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a restrir isod o etholiadau llywodraeth leol 2022.

- Dyletswydd cyfranogiad y cyhoedd gan gynnwys dyletswydd i baratoi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd (adrannau 39-41)
- Dyletswydd i roi cynllun deisebau ar waith (adran 42)
- Dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol (adran 43)
- Dyletswydd i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan Bennod 2 o Ran 3 (adran 44)
- Dyletswydd i gyhoeddi cyfansoddiad a chanllaw i'r cyfansoddiad (adran 45)
- Dyletswydd i wneud trefniadau i alluogi cyfarfodydd i gael eu darlledu'n electronig (adran 46)
- Penodi prif weithredwr (adran 54)
- Dyletswydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad (adran 62)
- Dyletswydd pwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol (adran 63)
- Dyletswydd ar gynghorau cymuned i baratoi cynllun hyfforddiant (adran 67)
- Asesiadau perfformiad paneli (adran 92 a 93)

Daw'r darpariaethau canlynol hefyd i rym ar 5 Mai 2022:

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned: yn darparu bod yn rhaid rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod cyngor cymuned gyflwyno sylwadau am unrhyw eitem fusnes y bwriedir ei thrafod yn y cyfarfod (adran 48)
- Ailystyried cydnabyddiaeth yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru: yn diwygio adran 143A o Fesur 2011 i ddarparu pan fydd Gweinidog Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i brif gyngor ailystyried ei ymateb i argymhelliad gan yr IRP, na ellir dirprwyo'r gwaith ailystyried a bod yn rhaid i'r cyngor llawn fod yn rhan o'r broses (adran 56)
- Penodi cynorthwywyr i'r weithrediaeth: yn darparu ar gyfer penodi aelodau prif gynghorau fel cynorthwywyr i'r weithrediaeth. Ni fydd y cynorthwywyr yn aelodau o'r weithrediaeth ond gallent weithredu ar ei rhan o dan rai amgylchiadau penodol (adran 57)
- Rhannu swydd: yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 i ddarparu ar gyfer dau aelod o brif gyngor yn rhannu swydd ar weithrediaeth ac yn cynyddu'r uchafswm a ganiateir o ran maint y weithrediaeth pan fydd aelodau'r weithrediaeth yn rhannu swydd. (adran 58)
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu: yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth i'r cyhoedd neu aelodau o brif gyngor am benderfyniadau gweithrediaeth y cyngor hwnnw (adran 65)
- Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi pwyllgorau trosolwg a chraffu ar y cyd: yn diwygio pŵer gwneud rheoliad yn adran 58 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sefydlu pwyllgor trosolwg a chraffu ar y cyd (adran 66)
- Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio: Aelodaeth a Gweithrediadau (Pennod 2 o Ran 6)
- Dileu'r cyfyngiad ar swyddogion monitro i gael eu penodi'n bennaeth gwasanaethau democrataidd hefyd ac atal prif weithredwr cyngor rhag cael ei benodi'n bennaeth gwasanaethau democrataidd (adran 161)
- Diddymu pleidleisiau sy'n dibynnu ar gyfarfod cymunedol: yn diwygio Deddf 1972 er mwyn diddymu pleidleisiau cymunedol, ac eithrio pleidleisiau llywodraethu cymunedol (adran 162)

**EVIDENCE SUBMITTED BY CICAIR TO THE WELSH PARLIAMENT EQUALITY, LOCAL GOVERNMENT AND COMMUNITIES COMMITTEE**

**MARCH 2021**

## 1.CICAIR

As the body designated by the Secretary of State in England and Welsh Ministers in Wales, CICAIR Ltd maintains the Construction Industry Council Approved Inspectors Register. The approval process provides applicants (individuals and companies) with a route to registration as an Approved Inspector. Approved Inspectors registered with CICAIR Ltd are qualified to undertake building control work in England and Wales in accordance with Part II of the Building Act 1984 and the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010. CICAIR manages the approval and termination of approval of Approved Inspectors in accordance with section 49 of the Building Act 1984 and regulations 3 and 5 of the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010. CICAIR undertakes all activity involved with the operation of the Register itself, including the assessment of new Approved Inspector applicants, monitoring and auditing existing Approved Inspectors, investigating alleged breaches of the Approved Inspectors Code of Conduct and undertaking disciplinary proceedings and appeals. Additionally CICAIR engages regularly with stakeholders including MHCLG, the Welsh Government, Association of Consultant Approved Inspectors and Local Authority Building Control. CICAIR's work and activities are overseen by a statutory Board of Directors, chaired by the Rt Hon Nick Raynsford, and comprising 9 other individuals with a range of relevant expertise. Representatives of the Welsh Government and MHCLG attend CICAIR Board meetings. The Registrar is Karen Holmes.

## 2. THE GRENFELL DISASTER

The Grenfell Tower fire was the worst failure of building safety in living memory. It is essential that all the lessons learned from this tragedy are understood and acted on to ensure that in future the arrangements put in place to ensure safety in buildings are effective and make any repetition of a similar disaster impossible. Accordingly CICAIR welcomes the publication of the White Paper 'Safer Buildings in Wales' as a clear indication of the commitment of the Welsh Government to put in place a new Building Safety Regime which will better protect the interests of the public and will prompt positive culture change in the way buildings are designed, constructed and managed.

CICAIR fully supports these objectives and believes that many of the proposals set out in the White Paper will help raise standards and improve building safety. In particular, we welcome the recognition that while the scale of the Grenfell disaster was exceptional, the likelihood of life-threatening incidents occurring in buildings below

the 18 metre height used to define Higher Risk Residential Buildings, is much greater, and in consequence the new building safety regime must cover a wider range of at risk buildings We do however have concerns that some of the policy proposals in the White Paper may not achieve their stated aims, and indeed in some respects may work against those aims, and in these areas we set out below suggestions as to how the objectives might better be delivered. These suggestions are not proposed in the interests of any one organisation or group of organisations, but because we believe they are in the public interest and will better ensure safety in buildings. In this evidence we are simply focussing on these areas in which we have relevant expertise and where we believe there is a real opportunity to secure better outcomes and so more effectively deliver the Welsh Government's aspirations.

3. CAPACITY AND COMPETANCE

It is widely recognised that capacity and competence are vital to the delivery of the culture change which the White Paper aims to promote. Many of the roles which are crucial to raising standards and improving building safety are facing serious challenges in securing sufficient, suitably qualified professional staff to meet requirements. This is particularly relevant to the building control field. The NHBC in its evidence to your Committee highlight a decline of 43% in local authority expenditure on building control between 2008-9 and 2017-18.

To successfully meet the more demanding expectations of building control activity in the future, there will be a need for a significant increase in the number of suitably qualified surveyors attracted to join the profession, and retained within the sector. There will also be a real need for continuing professional development to ensure that those working in the field are keeping abreast of new materials, technology and regulatory requirements. In the past, private sector Approved Inspectors have played a significant role in training and continuous professional development. The policy proposal in the White Paper to revert to a local authority monopoly on building control work on buildings over 18 metres/ 6 storeys sends a clear message that Approved Inspectors will not be able to undertake such work in future, and there is therefore no incentive for them to recruit and train surveyors with the necessary skills to undertake such work.

The intentions laid out in the White Paper could be interpreted that it is the nature of the organisation, rather than the competence of its team that will determine the choice of building control body to handle the most complex fire safety challenges. The combination of this policy and the otherwise welcome decision of the Welsh Government to widen the net to include category 1 buildings within the new building safety regime (albeit only at this stage in respect of buildings in occupation) sends a message about the direction of travel which is unlikely to be interpreted by Approved Inspectors as an encouragement to expand their workforce and their training programmes in Wales. All of this could have a serious negative impact on both capacity and competence.

4. A LEVEL PLAYING FIELD WITH SAFEGUARDS AGAINST CONFLICTS OF INTEREST AND INCENTIVES TO RAISE PERFORMANCE STANDARDS

In CICAIR's view, the best framework for delivering high quality building control services for all buildings is one which provides a level playing field for both local authorities and AIs to compete for business with clear safeguards against conflicts of interest and incentives to improve the quality of service. A level playing field requires

CICAIR Limited | 26 Store Street | London WC1E 7BT | United Kingdom
T +44 (0)20 7399 7403 | E cicair@cic.org.uk | www.cic.org.uk
VAT Registration Number 668391491 | Company Registration Number 8881582

the same standards and expectations applying to those undertaking building control work, whether they are in public or private sectors. We therefore welcome the commitment in the White Paper (para 4.2.9) to create a unified professional and regulatory structure for building control. We are not however clear how this is compatible with the exclusion of AIs from work on category 1 buildings covered in para 3 above, nor the suggestion in para 4.2.9 that new registration requirements will be introduced for AIs (but not for local authorities) as well as an application procedure "which will include restriction as to the type of work to be registered". It is unclear whether these restrictions will go further than category 1 buildings and if so what is the rationale for this.

As the body currently designated by Welsh Ministers to regulate AIs, we stand ready to offer insight into the current regime, and how that insight may assist and influence the proposed changes to registration requirements and procedures. Needless to say, we will be happy to assist the Welsh Government in developing proposals for new registration arrangements.

As a member of the Future of Building Control Group, we strongly support its recommendation for the creation of an independent new Registration Body to oversee two registers. The first register would cover the individual registration of all building control professionals seeking to undertake building control work, whether in the public or private sectors, linked to a skills matrix to ensure that only those with the requisite skills and experience can undertake building control work on more complex and higher risk buildings. The second register would cover all building control bodies, including AIs and local authorities, with regular monitoring and audit to ensure the organisation's competence and capacity to undertake the full range of work for which it is authorised (with restrictions applying where it cannot meet the required standards) and to identify the need for further training and development to enable the organisation to improve its performance and expand its potential remit. There should be clear rules to prevent conflicts of interest, such as AIs providing substantial consultancy as well as building control services to clients, and local authorities undertaking building control work on buildings owned by or being developed in partnership with the local authority.

5. AVOIDING A TWO TIER SYSTEM

One of the less welcome consequences of the Hackitt recommendations is the creation of a two-tier system with different procedures and requirements applying to building control work on high-risk and in-scope buildings, as against the large majority of other buildings where the client will still be able to choose the building control body. This has been criticised by, among others, the Westminster Housing, Communities and Local Government Select Committee, which recommended that client choice should be removed in all cases. Both Dame Judith Hackitt and the Westminster Minister (Lord Greenhalgh) have resisted such proposals in the past on the grounds that the new system could easily be overwhelmed by the need to have arrangements in place to appoint building control bodies in literally hundreds of thousands of cases every year. However the two-tier system is inherently unstable, as there is no clear dividing line between those buildings deemed higher risk and the rest. Height is a factor, but not by any means the only one as the Welsh Government has pointed out in making the case for category 2 buildings to be brought within the new regime.

In CICAIR's view a more logical approach would be not to remove the client's choice of building control body, but to constrain it by requiring the client to secure approval, in all case involving higher risk buildings, of the chosen body from the Regulator of Building Safety (or perhaps by the Welsh Government in Wales). The register of

building control professionals and building control bodies proposed in para 4 above would provide the evidence of the capabilities of building control bodies which could both help inform the client' choice and provide the Regulator (or Welsh Government) with strong evidence of skills, capabilities and track record to help them decide whether or not to approve the chosen body. This would have the added advantage of removing the conflict of interest in England where the Regulator would, on current proposals, be overseeing its own performance on higher risk buildings. A further advantage would be the scope for extending the definition of higher risk buildings from just category 1 to include others within the current proposed category 2, without overwhelming the system or causing serious administrative challenges. Such flexibility could well prove important when introducing such far-reaching reforms as are envisaged, when almost inevitably some elements in the package will prove more difficult than others to implement, and some suggested changes to the ranking of risks are likely to be thrown up by the experience of operating the new arrangements. Maintaining a unified system would also help to avoid the risk in any two-tier system that focus inevitably gets concentrated on the higher priority work, and less attention is given to driving up standards across the board, which is essential if we are to have a truly effective building control system.

6. CONCLUSION

We hope that these observations are helpful to the Equality and Local Government and Communities Committee in framing a response to the Welsh Government's White Paper, and we will be pleased to provide further clarification either in writing or verbally as required.

CICAIR Limited | 26 Store Street | London WC1E 7BT | United Kingdom
T +44 (0)20 7399 7403 | E cicair@cic.org.uk | www.cic.org.uk
VAT Registration Number 668391491 | Company Registration Number 8881582

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

08 Mawrth 2021

Annwyl John

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2021-22. Hoffem ddiolch hefyd i aelodau'r Pwyllgor am eu amser. Mae'r papur sydd ynghlwm yn nodi ein hymateb i deg argymhelliad yr adroddiad.


Yn gywir,

Julie James

**Julie James AC**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol



**Rebecca Evans AC**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd



**Jane Hutt AC**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip



**Hannah Blythyn AC**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD PWYLLGOR CYDRADDOLDEB, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU: GWAITH CRAFFU LLYWODRAETH CYMRU AR GYLLIDEB DDRAFFT 2021-22**

**LLYWODRAETH LEOL – ADRAN 1**

**Argymhelliad 1**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu effaith casglu llai o Ardrethi Annomestig er mwyn deall y costau gwirioneddol yn llawn, a dylem sicrhau bod unrhyw adnoddau pellach sydd eu hangen i dalu am golled incwm ychwanegol yn cael eu darparu i awdurdodau lleol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Mae Llywodraeth Cymru yn monitro effaith Covid-19 ar sylfaen trethi'r ardrethi annomestig yn ofalus. Rhoddwyd proses fonitro fisol ar waith ar gyfer llywodraeth leol yn gynnar yn 2020-21. Mae hynny wedi sicrhau ein bod yn cadw golwg cyson ar sut mae'r pandemig yn effeithio ar gyfraddau casglu'r ardrethi annomestig o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i fonitro'r wybodaeth honno'n fisol drwy gydol 2021-22.

Er mwyn cydnabod effaith llai o incwm o'r ardrethi annomestig, dyrannwyd £100m ychwanegol o gyllid canolog i lywodraeth leol a setliadau'r heddlu yn y drydedd gyllideb atodol, gan leihau'r ddarpariaeth o gyllid yr ardrethi annomestig o'r un swm. Mae'r cam gweithredu hwnnw'n lleihau unrhyw ddiffyg ar gronfa'r ardrethi annomestig o ganlyniad i gyfraddau casglu is eleni. Mae hefyd yn lleddfu unrhyw effaith gyson ar gyllid yr ardrethi annomestig sydd ar gael ar gyfer setliadau llywodraeth leol a'r heddlu yn y dyfodol.

Llywodraeth Cymru sy'n rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â chasglu ardrethi annomestig yn y pen draw. Bydd y trefniadau monitro yn ein galluogi i nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud â llif arian yn ystod y flwyddyn y gallai awdurdodau lleol eu profi, ac ymateb yn unol â hynny. Bydd setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol yn parhau i ystyried sefyllfa ariannu gyffredinol awdurdodau lleol, gan ddarparu'r setliad gorau posibl yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael.

**Argymhelliad 2**
**Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid yn adolygu'r dyraniad yn y Setliad Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac yn cynyddu'r dyraniad hwn yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i asesu faint o adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i dalu am y cynnydd yn y galw am y cynllun.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i fonitro effaith Covid-19 ar y galw am gymorth ar gyfer y dreth gyngor. Byddwn yn parhau i wneud hynny drwy 2021-22.

Mae'r £244 miliwn a ddarparwyd yn y setliad wedi'i gynnal i adlewyrchu cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd ar adeg cyflwyno cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

Ers cyflwyno'r cynllun yn 2013, mae llwyth achosion cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor wedi gostwng, ond mae lefelau'r dreth gyngor wedi cynyddu. Ac felly mae gwerth cyffredinol y gostyngiadau wedi cynyddu hefyd. Cydnabuwyd o'r cychwyn cyntaf y byddai hynny'n nodwedd o gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae angen i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o'u penderfyniadau lleol ar gynnydd yn y dreth gyngor. Mae hynny'n adlewyrchu'r dull cenedlaethol o weithredu ar y cyd i ymdrin â'r cynllun sydd ar waith yng Nghymru.

I gydnabod effaith Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi bron £11m o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol yn 2020-21 i'w helpu i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol ar gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae'r cyllid ychwanegol hwnnw wedi bod yn gymorth hanfodol i'r 10,000 o aelwydydd ychwanegol y mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio'n uniongyrchol arnynt, ac sy'n ei chael yn anodd ymdopi'n ariannol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r dull hwn o weithredu'n sicrhau bod yr angen am gyllid ychwanegol yn cael ei fesur yn gywir a'i dargedu'n effeithiol rhwng yr awdurdodau.

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ym mhob un o'r meysydd hyn tra bydd y pandemig yn parhau i gael effaith ar gyllid aelwydydd, busnesau a'r cyhoedd.

**Argymhelliad 3**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor er mwyn sicrhau mynediad i bawb sy'n gymwys. Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad o'n hadroddiad ynghylch budd-daliadau yng Nghymru, sef bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella'r nifer sy'n hawlio pob budd-dal yng Nghymru, yn rhai wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad inni ar y cynnydd o ran gwella'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau.**

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn parhau i gynhyrchu adroddiadau manwl rheolaidd ar y cyllid a'r llwyth achosion sy'n ymwneud a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o argaeledd cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a'r cymorth arall sy'n ymwneud â'r dreth gyngor (gostyngiadau ac eithriadau) i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun ac unrhyw gymorth arall.

Rydym eisoes wedi gweithio gydag awdurdodau, gwasanaethau cynghori a MoneySavingExpert.com i ddatblygu cyngor syml a chyson i sicrhau bod gan bob aelwyd yng Nghymru fynediad at wybodaeth am eu hawliau. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrch ar y cyd i hyrwyddo'r gostyngiad yn y dreth gyngor sydd ar gael i bobl y canfuwyd bod ganddynt nam meddyliol difrifol. Denodd yr ymgyrch hon ddarllediadau teledu cenedlaethol ac mae ffigurau dros dro yn awgrymu bod eithriadau SMI wedi cynyddu dros 1,000 ers 2018 i dros 5,200 ym mis Rhagfyr 2020

Rydym wedi ail-gynnal ein hymgyrch ar-lein i godi ymwybyddiaeth bellach a chyson o'r cymorth y gallai fod gan aelwydydd hawl iddo, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Y nifer o weithiau unigryw y cafodd y tudalennau gwe hyn eu hedrych arnynt yw dros 80,000 o weithiau ers iddynt gael eu lansio yn 2018.

Mae'n bwysig nodi na ddatganolwyd Budd-dal y Dreth Gyngor i Lywodraeth Cymru, ac nad budd-dal nawdd cymdeithasol ond rhan annatod o system y dreth gyngor yw cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

**TAI – ADRAN 2**

**Argymhelliad 4**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu dyraniadau sy’n cyfrannu at y broses o fynd i’r afael â digartrefedd yn y gyllideb derfynol.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn unol â'n hymrwymiad i wneud digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac yn rhywbeth nad yw'n digwydd fwy nag unwaith, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn atal digartrefedd ac yn parhau i wneud hynny.

Er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni rydym wedi dyrannu £40m yn ychwanegol yn y gyllideb ddrafft i'r Grant Cymorth Tai. Ynghyd â'r Grant Atal Digartrefedd, yr ydym wedi cynyddu £4m, mae hwn yn fuddsoddiad o £188.6m i'n dwy brif ffrwd ariannu i atal digartrefedd ar gyfer 2021/22.

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos y lefel uchel o anghenion cymorth nas diwallwyd o'r blaen, ac er bod y cyllid ychwanegol brys wedi helpu i ddiwallu'r rhain yn y tymor byr i gadw pobl yn ddiogel yn ystod y pandemig, rydym wedi cydnabod bod angen y buddsoddiad tymor hwy hwn mewn cymorth tai os ydym am adeiladu ar y cynnydd a wnaed a pheidio â mynd yn ôl. Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i gynnal ac adeiladu ar y dull cynhwysol a gymerwyd yn ystod y pandemig i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael heb lety. Bydd hefyd yn cefnogi gweithredu'r newid trawsnewidiol i ddull sy'n sicrhau ailgartrefu cyflym, fel y nodir yn argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, ac sy'n ofynnol er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Fel y nodir yn y gyllideb ddrafft, dyrannwyd £4m o'r gronfa covid-19 i'r Grant Atal Digartrefedd i'n galluogi i gynnal y ddarpariaeth frys o lety a chymorth ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf yn ôl y gofyn, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau. Dyrannodd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd ar 2 Mawrth £206.6m ychwanegol i Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol i dalu costau disgwyliedig a chostau colli incwm chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol – bydd hyn yn cynnwys y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu llety brys a chymorth i'r rhai sy'n ddigartref ar ben y £4m a ddyrannwyd eisoes.

**Argymhelliad 5**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio pob llwybr cyfreithiol ar frys i ddatrys cymhlethdodau gwella diogelwch adeiladau uchel iawn ac i weithio gyda Llywodraeth y DU ar sut y gellir symud y gwaith hwn yn ei flaen yn gyflym. Byddem yn gofyn am ddiweddariad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn parhau i weithio ar gynigion ariannu i gefnogi'r gwaith o adfer adeiladau preswyl uchel yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. O'r £10.5m a ddyrannwyd i waith adfer y sector cymdeithasol yn 2020-21, byddwn yn darparu £8.266m a fydd yn cefnogi gwelliannau ar gyfer diogelu rhag tân a diogelwch strwythurol mewn 12 adeilad. Rydym yn siomedig na allwn ddyrannu'r swm llawn o arian sydd ar gael, ond o ystyried yr heriau mewn perthynas â phrosiectau seilwaith cyfalaf o ganlyniad i Covid-19, mae hyn yn gyflawniad rhyfeddol a gobeithiwn y bydd y rhai sy'n byw yn yr adeiladau hynny yn gweld y gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym.

Dyrannwyd £32m ychwanegol i adfer adeiladau fel rhan o'r gyllideb ddrafft.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar fanylion y pecyn ariannu ychwanegol hwn a fydd yn cynnwys y sector preifat a chymdeithasol yn 2021. Nid yw cynnig o'r fath yn hawdd. Rydym am sicrhau bod y pecyn ariannu a gynigir yn caniatáu i'r rhai sy'n rheoli ac yn byw mewn adeiladau uchel fynd i'r afael â materion diogelwch adeiladau mewn modd cynhwysfawr, nid dim ond y rhai a achosir gan gladin. Bydd ein pecyn yn cefnogi gwaith adfer mewn perthynas â chladin a'r rhaniad rhwng fflatiau, yn ogystal â darparu cyllid ar gyfer systemau llethu tân, lle nad ydynt eisoes wedi'u gosod a seinyddion i wacáu'r adeilad lle y bo'n briodol. Dim ond drwy fynd ati mewn ffordd gyfannol y gallwn sicrhau bod adeiladau'n cael eu gwneud yn ddiogel.

Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu Tîm Arolygu ar y Cyd. Bydd gwaith y tîm hwn yn helpu i lywio ein gwaith drwy ddarparu manylion llawer cliriach am gwmpas a graddfa'r gwaith sydd ei angen ar ein hadeiladau uchel. Bydd dull o'r fath yn hanfodol wrth asesu lefel y cymorth sydd ei angen yn y maes hwn yn y dyfodol.

Bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ar sut y gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid y gronfa hon cyn gynted â phosibl. Byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn, ac edrychwn ymlaen at eich cyfraniad parhaus wrth inni ddatblygu'r maes polisi hwn.

**Argymhelliad 6**

**Rydym yn argymell, cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol, bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar y camau y mae wedi'u cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Cymorth Dewisol ymhlith y rhai sy'n gymwys i wneud cais am ei chymorth.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn hygyrch i bawb sydd ei hangen. Rydym yn gweithio i sicrhau drwy ein hymgyrch codi ymwybyddiaeth ein hunain, a thrwy hyrwyddo'r gronfa drwy bartneriaid fel awdurdodau lleol, banciau bwyd a'r cyfryngau cymdeithasol bod popeth yn cael ei wneud i ganfod a chyrraedd grwpiau targed - a bydd hyn yn parhau.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn parhau i gael ei gefnogi gan ei Rwydwaith o Bartneriaid sy'n cynnwys mwy na 570 o sefydliadau sy'n allweddol i gyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Byddwn yn parhau i ystyried cynyddu maint y cyfathrebu ymhellach pan fo angen a fel y bo'n briodol.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi gallu addasu ei feini prawf i sicrhau bod y gronfa'n adlewyrchu amgylchiadau a phrofiadau byw defnyddwyr gwasanaethau, ac yn cael ei chefnogi gan rwydwaith o bartneriaid sy'n cyfeirio eu cleientiaid ac yn gwneud cais ar eu rhan. Mae Rhwydwaith o Bartneriaid y Gronfa Cymorth Dewisol yn cynnwys mwy na 570 o sefydliadau rheng flaen ledled Cymru, gan gynnwys banciau bwyd, asiantaethau cynghori, awdurdodau lleol, sefydliadau trais domestig, elusennau atal digartrefedd, sefydliadau anabledd uniongyrchol ac anuniongyrchol, a llawer mwy o sefydliadau sy'n cefnogi cleientiaid sy'n cynnwys amrywiaeth eang o unigolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl ag anableddau. Y sefydliadau hyn sydd yn y sefyllfa orau i helpu cleientiaid, o ystyried eu harbenigedd mewn cefnogi grwpiau mwy agored i niwed a'u gwybodaeth ddysgedig am eu cleientiaid a'r pwysau y maent yn eu hwynebu bob dydd.

Yn ogystal â'r gwaith gyda'r rhwydwaith o bartneriaid a'r rôl a chwaraeir ganddo, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn aml ers dechrau'r pandemig i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gronfa, gan gynnwys y rhai sy'n newydd i Gredyd Cynhwysol ac sy'n aros am eu taliad cyntaf. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol hefyd wedi'i gynnwys yn nhaflen Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd y llynedd, ac a ddiweddarwyd ac a ailgyhoeddwyd yn ddiweddar.
Fel rhan o'r Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ar 2 Mawrth, dyrannwyd £10.5m yn ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol i barhau â'r hyblygrwydd o ran cael gafael ar y cyllid hyd at ddiwedd mis Medi 2021, ynghyd â mesurau sydd â'r nod o fynd i'r afael

ag achosion sylfaenol tlodi. Hyrwyddir yr arian ychwanegol hwn a mesurau cymorth y Gronfa Cymorth Dewisol drwy'r holl sianeli priodol.

## YSTYRIAETHAU O RAN CYDRADDOLDEB YN Y GYLLIDEB DDRAFFT – ADRAN 3

**Argymhelliad 7**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn dadl y Senedd ar y gyllideb derfynol, yn darparu rhagor o wybodaeth i ddangos sut y mae ei hasesiad effaith integredig strategol wedi dylanwadu ar y dyraniadau yn y gyllideb.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn parhau i roi o’n hamser i adolygu ein dull o asesu effeithiau. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22 cymerwyd nifer o gamau i wella'r ffordd yr ydym yn cyflwyno effaith ein penderfyniadau am wariant yn y gyllideb.

Eleni, gwnaethom gynnwys manylion am effeithiau penderfyniadau penodol am wariant fel rhan o'r prif naratif ym mhenodau pedwar a chwech, er mwyn gwella tryloywder. Ategwyd hynny drwy gynnwys crynodeb o'r dystiolaeth gyd-destunol a lywiodd y penderfyniadau hynny am wariant strategol - a gyflwynwyd yn Atodiad C. Roedd hwnnw'n cynnwys tystiolaeth am yr effeithiau anghymesur yn ôl gwahanol nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys rhywedd, hil ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gwnaethom hefyd gyflwyno astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau penodol am wariant, er mwyn dangos yn well sut y caiff asesiad ei gynnal yn fanylach. Mae hyn yn cynnwys astudiaeth achos ar raglen y Cyfrif Dysgu Personol, sy'n cynnwys canlyniadau cynnar o'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y peilot hwnnw, 'sy'n rhoi sylw i rywedd’.

Mae penodau pedwar a chwech o naratif y Gyllideb yn nodi nifer o benderfyniadau strategol am wariant sydd wedi'u cynllunio i ymateb i'r dystiolaeth mai'r bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru fydd yn cael yr effeithiau ariannol mwyaf difrifol a achosir gan yr argyfwng.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi papurau tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22, sy'n cynnwys gwybodaeth am sut mae ystyriaethau o ran yr effaith wedi llywio dyraniadau cyllideb ym mhob Prif Grŵp Gwariant (MEG).

**Argymhelliad 8**

**Rydym yn argymell bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn cynnwys enghreifftiau i ddangos sut y mae’r model Effaith Ddosbarthiadol wedi dylanwadu ar benderfyniadau a wnaed yn y gyllideb honno.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r dadansoddiad dosbarthiadol a gynhwysir yn y Gyllideb Ddrafft yn ymarfer archwiliadol i weld beth y gellir ei wneud yn y maes hwn, er ei fod yn cynnwys rhai canlyniadau diddorol ynddo'i hun. Nid yw wedi'i ddefnyddio i gynorthwyo'n uniongyrchol â dyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, mae gan y math hwn o ddadansoddiad y potensial i lywio penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Y nod yw ymgorffori dadansoddiad dosbarthiadol yn y gyfres o wybodaeth sy'n cyd-fynd â chyllidebau yn y dyfodol. Bydd ei allu i lywio penderfyniadau cyllidebol yn dibynnu ar argaeledd data mewn meysydd penodol.

Mae'r Llywodraeth wedi cynnwys darpariaeth yn y Gyllideb Ddrafft i ariannu cymorth ychwanegol ar gyfer yr Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru. Bydd hyn yn gwella'r data sydd ar gael i gefnogi'r math hwn o ddadansoddiad yn y dyfodol, yn ogystal â chefnogi ystod o flaenoriaethau dadansoddol eraill. Efallai y bydd potensial hefyd i ddefnyddio setiau data eraill i ehangu cwmpas y gwaith hwn. Fodd bynnag, dim ond ar ôl rhyw ychydig flynyddoedd y bydd y canlyniadau ar gael ar gyfer y buddsoddiad hwn mewn data gwell.

**Argymhelliad 9**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn dadl y Senedd ar y gyllideb derfynol, yn amlinellu ei safbwynt ynghylch p’un a yw’n credu, mewn egwyddor, y dylai gwariant cyhoeddus fod yn gwbl flaengar ar draws pob cwintel o incwm cartref cyfartal.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel y dangosir yn y dadansoddiad dosbarthiadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, mae'r berthynas rhwng darparu gwasanaethau cyhoeddus ac incwm yn amrywio ar draws gwahanol raglenni. Darperir rhai gwasanaethau ar sail gyffredinol ac mae eraill yn destun profion modd. Bydd effaith ddosbarthiadol gwasanaethau a ddarperir ar sail gyffredinol yn dibynnu ar ba grwpiau yn y gymdeithas sy'n gwneud y defnydd mwyaf ohonynt. Mae'r rhai sy'n destun prawf

modd, o fwriad, yn fwy tebygol o fod yn flaengar o ran incwm. Fodd bynnag, nid ystyrir bod profion modd yn ddull addas ar draws yr holl wasanaethau.

At hynny, nid yw pob math o wariant cyhoeddus yn gallu cael ei ddadansoddi'n ddosbarthiadol. Er enghraifft, mae effaith cyfalaf neu wariant ataliol ar wahanol aelwydydd ymhell o fod yn uniongyrchol. Mae manteision a buddiolwyr gwariant o'r fath yn y dyfodol yn anodd eu cynnwys yn y math hwn o ddadansoddiad. Yn fwy cyffredinol, ceir agweddau ar wariant cyhoeddus sy'n darparu manteision cymdeithasol ehangach sydd hefyd yn anodd eu hadlewyrchu yn y fframwaith hwn.

**Argymhelliad 10**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus i nodi'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod gwariant yn gwbl flaengar ar draws pob cwintel o incwm cartref cyfartal.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r dadansoddiad dosbarthiadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft yn dangos bod y gwariant yn raddoledig o ran incwm ar y cyfan ar draws y meysydd o wasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, nid yw'n gyson raddoledig yn ôl cwintel incwm.

Bydd y cynnydd graddoledig o ran rhai agweddau ar wariant yn dibynnu ar y mathau o aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn ogystal â dyluniad y gwasanaeth ei hun. Mae rhesymau da iawn dros ddarparu rhai gwasanaethau cyhoeddus ar sail gyffredinol. Er enghraifft, mae darpariaeth gofal iechyd gyffredinol yn sicrhau bod gan bob aelod o gymdeithas fynediad i'r un gwasanaethau beth bynnag fo'u gallu i dalu. Yn yr achosion hynny ni ellir gwarantu y bydd yr angen am y gwasanaeth bob amser yn uwch ymhlith y rhai ar ben isaf y dosbarthiad incwm ac yn lleihau'n gyson wrth i'r incwm godi. Yn ogystal, mae'n anodd dangos rhai meysydd gwariant cyhoeddus yn y math hwn o fodel.

Mae dadansoddi dosbarthiadol yn ffordd ddefnyddiol o asesu'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus ar draws y dosbarthiad incwm. Mae hyn yn rhoi persbectif ychwanegol i lunwyr polisi wrth ystyried cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n un o gyfres o ddulliau sydd ar gael i'w defnyddio yn y broses o lunio polisïau. Byddai ei ddefnyddio yn y ffordd a awgrymir yma yn ddull amwys, ac ni fyddai o reidrwydd yn cyd-fynd â nodau polisi cyfreithlon eraill.